




Swansea University
Prifysgol Abertawe



Riversimple yn cyflwyno Chwyldro Cylchol

Mae'n bleser gan Riversimple gyhoeddi lansiad Chwyldro Cylchol – Canolfan Arloesi Economi Gylchol i Gymru. Chwyldro Cylchol yw'r ganolfan gyntaf yn y DU a arweinir gan fyd busnes ac sy'n canolbwyntio ar syniadaeth gylchol, ac mae wedi cael ei chynllunio a'i darparu mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerwysg. Ariannir y gweithrediad sy'n costio £2.3m yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, sy'n cyfrannu dros £1.5m.

Caiff y Chwyldro Cylchol ei redeg o ganolfan bwrpasol ym Mhencadlys Riversimple yn Llandrindod, a bydd yn cyflwyno dwy raglen o weithgarwch. Mae'r un gyntaf yn rhaglen allgymorth i fusnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n awyddus i ymgysylltu gyda chynhyrchion, gwasanaethau a modelau busnes mwy cynaliadwy. Bydd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerwysg yn cynorthwyo cwmnïau i ddarganfod yr arferion diweddaraf, gan archwilio sut i ymwreiddio egwyddorion cylchol yn eu busnes.

Bydd yr ail raglen gweithgarwch yn torri tir newydd gyda gwaith ymchwil ac arloesi sy'n ceisio mynd i'r afael â'r sialensiau penodol y mae busnesau yn eu hwynebu wrth fabwysiadu model cylchol gwerthu gwasanaeth. Bydd 6 phrosiect Peilot yn canolbwyntio ar ddatblygu caffael, systemau cyfrifiannu, a fframweithiau cyfreithiol.

Dywedodd Dr. Gavin Bunting, Athro Cyswllt o Brifysgol Abertawe,

“Gyda busnesau yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i ymwreiddio cynladwyedd wrth wraidd sefydliadau, mae'r Chwyldro Cylchol yn cynnig cyfle gwyb i gysylltu diwydiant yng Nghymru gyda'r arbenigedd yn ein prifysgolion, gan greu cyfleoedd newydd a galluogi Cymru i fod ar y blaen yn yr economi gylchol”.

Dywedodd Dr. Fiona Charnley, Athro Cyswllt o Brifysgol Caerwysg,

“Mae'r Economi Gylchol yn cynnig fframwaith trawiadol ar gyfer newid systemau, ac er bod y naratif yn syml, mae'n aml yn anodd i'w weithredu, yn enwedig i sefydliadau llai o faint. Mae'r Chwyldro Cylchol yn cynnig cyfle unigryw i sefydliadau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i ymgysylltu gydag arloesi cylchol ac i ddysgu gan arfer gorau diwydiannol ac academiaidd”

Dywedodd Cyfarwyddwr Riversimple, Fiona Spowers,

“Mae'n fraint cael y cyfle hwn i gynnal y ganolfan ac i yrru syniadaeth gylchol yn ei blaen ar lefel fyd-eang o Gymru. Er bod cryn frwdfrydedd am gysyniad modelau busnes cylchol, maent yn anodd i'w mabwysiadu a'u coleddu yn llawn. Gyda rhaglen beilot y Chwyldro Cylchol, rydym mewn sefyllfa unigryw i dreialu, profi a mireinio'r ymchwil hwn ar fusnes bach go iawn yng Nghymru, Riversimple.”

Dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,

“Wrth i ni symud Cymru tuag at ddod yn genedl net-sero, ac wrth i ni wneud cynnydd yn ein trawsnewidiad tuag at Economi Gylchol, mae'n hanfodol ein bod ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i annog busnesau o bob maint yng Nghymru i fabwysiadu modelau busnes a gwasanaethau mwy cynaliadwy. Mae gan bawb rôl i'w chwarae wrth wneud Cymru'n genedl decach a mwy cynaliadwy, ac nid yw busnesau'n eithriad i hynny.

“Felly, rwy'n falch o groesawu lansiad Chwyldro Cylchol, dull newydd sy'n arwain arloesedd er mwyn darparu cyngor, arweiniad a chymorth i fusnesau wrth iddynt geisio newid eu modelau busnes ac wynebu heriau newydd - ac rwy'n hynod o falch o weld parodrwydd a brwdfrydedd y busnesau hynny sy'n rhan ohono.”

Bydd Chwyldro Cylchol yn cynorthwyo Cymru i ddatblygu cynaladwyedd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a thu hwnt, gan helpu i greu'r economi Werdd. Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn helpu i greu swyddi, cynorthwyo busnes a gwella sgiliau yng Nghymru trwy'r gweithrediad hwn.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r economi gylchol yn bwnc sy'n tyfu ar draws y DU, a gwelir nifer o fentrau yng Nghymru, megis Cronfa yr Economi Gylchol a Chymunedau Arloesi yr Economi Gylchol. Mae'r Chwyldro Cylchol yn unigryw gan ei fod yn canolbwyntio ar helpu pontio/trawsnewidiad ymarferol busnesau i'r model busnes newydd hwn, gyda'r ddealltwriaeth ei fod yn effeithio ar rwydwaith cyfan perthnasod cwmni. Ni all busnes newid i fod yn fusnes cylchol ar ei ben ei hun.

Arbenigedd Prifysgol Caerwysg ym maes yr Economi Gylchol: Cartref Canolfan Economi Gylchol Caerwysg, un o'r grwpiau ymchwil rhyngddisgyblaethol mwyaf sy'n canolbwyntio ar yr Economi Gylchol yn y DU, gan feddu ar arbenigedd mewn dylunio cylchol, arloesi a modelu busnes.

Arbenigedd Prifysgol Abertawe ym maes yr Economi Gylchol: mae Dr Gavin Bunting yn cadeirio Grŵp Ymchwil ac Arloesi yr Economi Gylchol yng Nghymru, sy'n galluogi cydweithio ar yr Economi Gylchol ar draws pob sefydliad AU yng Nghymru.

Arbenigedd Riversimple ym maes yr Economi Gylchol: Aelod o Fenter Ceir Cylchol Fforwm Economaidd y Byd; etholwyd yn 2017 i fod yn un o Arloeswyr sy'n dod i'r Amlwg Sefydliad Ellen Macarthur; dyluniad dalen lân o'r busnes cyfan er mwyn defnyddio cyn lleied o adnoddau ag y bo modd, a gwelir tystiolaeth o hyn ar ffurf model busnes gwerthu-gwasanaeth hollgynhwysol.